UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Canllawiau gweithredol ynghylch Teithio gan Ddysgwyr 2025

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (os yn berthnasol): UCAC

E-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2EU

Dylid cyflwyno ymatebion erbyn 3 Medi 2025 i:

Ymgynghoriad Teithio gan Ddysgwyr
Yr Is-adran Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig
Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir llenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad hwn:

E-bost: bus@llyw.cymru (pwnc: Ymgynghoriad Teithio gan Ddysgwyr)

**Cwestiwn 1** – A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau wedi'u diweddaru yn cyd-fynd â'r datblygiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi'n wreiddiol yn 2014 ac yn ymhelaethu arnynt?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

| Sylwadau: |
|---|
| Rydym yn croesawu'r ffaith fod sylw'n cael ei roi i ofynion newydd o ran y Gymraeg ac edrychwn ymlaen at weld hyn yn cael ei roi ar waith. Mae'n hollbwysig fod disgyblion sy'n dymuno derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael y cyfle hwnnw ac na roddir unrhyw rwystrau o'u blaen. Rydym am weld addysg Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i hybu a bod pob hwylustra'n cael ei roi i'r sawl sydd am ddilyn y llwybr hwnnw. |
| Yn yr un modd, rydym yn croesawu'r sylw a roddwyd i newidiadau eraill hefyd o ran deddfwriaeth e.e. deddfwriaeth ADY. |

**Cwestiwn 2** – A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn rhoi eglurder ar ddarpariaeth drafnidiaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

| Sylwadau: |
|---|
| Yn gyffredinol, ceir eglurder ar ddarpariaeth drafnidiaeth i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cyfeirir at y Cod ac at Gynlluniau Dysgu Unigol ac at rôl yr Hebryngwr. Fodd bynnag, ni cheir sylw penodol i'r sawl sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac sydd hefyd am dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. |

**Cwestiwn 3** – A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau ar Adran 10 (hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi'u cryfhau?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

| Sylwadau: |
|---|
| Ymddengys fod y canllawiau wedi'u cryfhau o ran y Gymraeg a'u bod yn hwyluso mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Edrychwn ymlaen at weld y canllawiau'n cael eu gweithredu, gan fawr obeithio y bydd y canllawiau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at allu pobl i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, gweler y sylw uchod (ymateb i gwestiwn 2) ynghylch y sawl sydd ag |

Anghenion Dysgu Ychwanegol ac sy'n dymuno derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Hoffem nodi hefyd y dylai addysg cyfrwng Cymraeg fod o fewn pellter teithio i **bob** disgybl yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod UCAC yn gresynu pan gyflwynwyd y Mesur yn wreiddiol gan nad oedd gwarant cyfreithiol i'r rheiny oedd yn awyddus i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Er ei bod yn ymddangos ar yr olwg gyntaf fod y canllawiau wedi'u cryfhau, mae peth cymhlethdod wedi codi oherwydd y diffygion gwreiddiol. Gweler hefyd ein sylwadau ar gyfer cwestiynau 13 a 15.

Teg yw dweud yn ogystal bod peidio â darparu trefniadaeth i sefydlidadau addysgol cyfrwng Cymraeg ôl-16 yn andwyol i'r ddarpariaeth ac mae'n sicrhau darpariaeth llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hynny'n bodoli gan fod darparwyr cyfrwng Saesneg yn aml yn fwy hygyrch am sawl rheswm, gan gynnwys eu bod yn aml wedi eu lleoli yng nghanol ein trefi a'n dinasoedd. Mae'r bylchau hyn o ran addysg cyfrwng Cymraeg yn cael effaith ar ddewis ysgol yn ogystal. Gallwn drafod y sefyllfa yma ymhellach, pe dymunech. Mae UCAC o'r farn bod angen sicrhau fod mynediad tebyg a theg i addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg, a hynny o 3-18 mlwydd oed. Byddai'n dda gweld canllawiau yn sicrhau hynny, boed y rhai dan sylw neu eraill.

**Cwestiwn 4** – A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau ar Adran 11 (hybu dulliau teithio cynaliadwy) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi'u cryfhau?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |

Sylwadau:

Ymddengys fod y canllawiau ar Adran 11 wedi'u cryfhau a bod sylw pellach wedi ei roi i hybu dulliau teithio cynaliadwy.

**Cwestiwn 5** – A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau'n adlewyrchu rhai o'r arferion da sydd wedi'u nodi ledled Cymru i annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng partneriaid cyflawni?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |

Sylwadau:

Mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig a cheir cyfeiriad at rai o'r arferion da sy'n bodoli eisoes.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6** – A ydych chi'n cytuno y bydd cynnwys canllaw cyffredinol ar yr amser teithio hiraf yn helpu i gynyddu cysondeb ar draws awdurdodau lleol?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

| Sylwadau: |
|---|
| Mae cytundeb rhwng awdurdodau lleol yn beth da. Mae'n dda hefyd mai 'tua' 45 munud a 't[h]ua' 75 munud a nodir. Sonnir yn y ddogfen hefyd na fydd hi'n bosibl cadw o fewn y terfynau hyn o ran addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n bwysig cydnabod fod ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth roi sylw i addysg cyfrwng Cymraeg. **Y gwir yw y dylai fod ysgol cyfrwng Cymraeg o fewn pellter teithio hwylus i bob plentyn/person ifanc yng Nghymru.** Dylid hefyd sicrhau fod daprariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn pellter teithio hwylus i ddisgyblion ag ADY hefyd. Ni ddylai'r rheiny sydd yn awyddus i dderbyn addysg Gymraeg gael eu trin yn andwyol yn hyn o beth. Mae UCAC yn ystyried hyn yn hollbwysig. **Dylid bod darpariaeth leol i bob un, beth bynnag fo ei iaith.** Rydym yn mawr obeithio y bydd cysondeb rhwng awdurdodau lleol a'i gilydd. |

**Cwestiwn 7** – A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau wedi'u cryfhau i ymgorffori 4 egwyddor gyffredinol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

| Sylwadau: |
|---|
| Mae'r canllawiau wedi'u cryfhau i ymgorffori egwyddorion cyffredinol CCUHP, gan gynnwys yr hawl i ddysgwyr gael mynegi eu barn a bod sylw'n cael ei roi i'r farn honno. Os dymunir cael barn rhanddeiliaid, bydd yn rhaid sicrhau bod y cwestiynau yn cael eu holi mewn modd dealladwy a chlir. |

**Cwestiwn 8** – A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 1 o'r canllawiau (Canllawiau Gweithredol)?

| Sylwadau: |
|---|

Buasai'n braf darllen am rai astudiaethau achos a sut mae unigolion wedi goresgyn heriau teithio. Byddai darllen am ddysgwyr ag ADY a hefyd am ddysgwyr sydd am dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwella'r ddogfen.

**Cwestiwn 9** – A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 2 (Asesu 'llwybr sydd ar gael' i'r ysgol)?

Sylwadau:

Mae'r wybodaeth wedi ei chyflwyno'n llawn a thrylwyr ac yn rhoi sylw i ddiogelwch dysgwyr.

**Cwestiwn 10** – Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 3 (Rheoliadau Gwybodaeth Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009)?

Sylwadau:

Ymddengys fod y wybodaeth hon yn glir. Byddai'n werthfawr gweld sut y rhennir y wybodaeth hon yn effeithiol gyda rhanddeiliaid.

**Cwestiwn 11** – A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynghylch rhan 4 (Diogelwch ar gludiant i ddysgwyr)?

Sylwadau:

Mae'n bwysig bod dysgwyr a rhieni'n gwbl ymwybodol o reolau diogelwch e.e. gwisgo gwregys ddiogelwch ayb a beth yw oblygiadau torri'r rheolau hynny. Byddai rhoi mwy o wybodaeth am natur yr hyfforddiant i Hebryngwyr Teithio yn fuddiol.

**Cwestiwn 12** – A ydych chi'n cytuno bod y diweddariad i'r canllawiau yn glir ac yn hawdd ei ddeall?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

Sylwadau:

Mae'r canllawiau yn fanwl ac ar y cyfan yn eithaf clir. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod y rhanddeiliaid i gyd yn ymwybodol o ofynion y canllawiau. Mae'n

bwysig fod y wybodaeth yn cael ei rhannu gyda rhanddeiliaid mewn iaith glir, hawdd ei deall.

**Cwestiwn 13** – Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y canllawiau ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau positif?
Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

Sylwadau:

Rydym yn gobeithio y bydd y canllawiau yn galluogi mwy o ddysgwyr i fynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'n bwysig bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu'n eang. Dylai pob rhiant dderbyn gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg ac am y cludiant sydd ar gael, er mwyn i'w plentyn dderbyn yr addysg honno.

Er bod y ddogfen yn nodi y bydd y canllawiau arfaethedig yn hybu ac yn hyrwyddo addysg Gymraeg, ymddengys nad felly y mae'r sefyllfa yn ôl yr hyn a nodwyd mewn trafodaeth yng Nghyfarfod Llawn y Senedd ar Hydref 8fed (paragraffau 454 ymlaen yn y cofnod canlynol https://record.senedd.wales/Plenary/15396#A100251). Nodir yn y fan honno fod y canllawiau diweddaraf yn mynd i gael effaith negyddol ar y Gymraeg. Dywedir y bydd y canllawiau newydd yn golygu fod y rhai sy'n byw yn agos at ysgol cyfrwng Saesneg yn colli mynediad at gludiant ysgol i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf, sydd efallai ychydig o dan y trothwy tair milltir – paragraff 473:

*'Mae'r newid hefyd yn cael effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg, gyda rhai sy'n byw yn agos at ysgol cyfrwng Saesneg yn colli mynediad at gludiant ysgol i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf, sydd, mewn nifer o esiamplau, jest o dan y trothwy o dair milltir. Mae rhieni wedi dweud wrthyf i y byddan nhw naill ai'n tynnu eu plant allan o addysg cyfrwng Cymraeg, neu ddim yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn y lle cyntaf os ydy hyn yn parhau i fod yn bolisi. Ydy'r Llywodraeth, felly, yn fodlon bod pellter ysgol, ac argaeledd trafnidiaeth, yn rhwystr i blant fynychu addysg cyfrwng Cymraeg? A sut mae hyn yn cyd-fynd â thargedau 'Cymraeg 2050'?*

Mae'r pwyntiau uchod yn ymddangos i wrthddweud yr hyn a nodir fel dyhead a gobeithion y canllawiau ac maent yn bwyntiau sydd yn peri consyrn gwirioneddol i ni fel undeb. Mae'n bwysig sicrhau bod y canllawiau ac unrhyw ddeddfwriaeth yn hwyluso addysg cyfrwng Cymraeg ac nid yn peri unrhyw fath o rwystr neu anhawster.

**Cwestiwn 14** – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r canllawiau er mwyn:

- cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu

- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

| Sylwadau:<br><br>Mae angen bod yn bendant a phenodol beth a olygir wrth 'addysg cyfrwng Cymraeg'. Er mwyn hyrwyddo a hybu addysg Gymraeg ymhellach, byddai'n fuddiol pe bai Awdurdodau Lleol yn gorfod talu costau teithio dysgwyr ôl-16.<br><br>Gweler yn ogystal y sylwadau ar gwestiwn 3. |
|---|

**Cwestiwn 15** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, gallwch wneud hynny yma:

| Sylwadau:<br><br>Byddai'n syniad rhoi canllawiau i Awdurdodau Lleol ynghylch y broses o ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, gan sicrhau bod dogfennau addas ar gael i'r diben.<br><br>Dylid sicrhau hefyd nad yw amddifadedd na thlodi yn amddifadu nac yn rhwystro disgyblion rhag cael y cyfle i gael yr addysg y maent yn ei dymuno e.e. addysg cyfrwng Cymraeg.<br>Wrth ystyried hygyrchedd o'r cartref i'r ysgol, mae angen ystyried mwy na phellter, dylid ystyried diogelwch a natur y llwybrau y byddai angen i blant gerdded ar hyd-ddynt hefyd.<br><br>Ar hyn o bryd, argymhellir taith o 60 munud fel taith resymol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol uwchradd. Mae'r canllawiau presennol yn newid hyn i 75 munud. Ydy hyn yn rhesymol? Nodir hefyd fod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau cludiant addas i sicrhau na fyddant yn achosi lefelau afresymol o straen i ddysgwyr. Fodd bynnag ni chynigir diffiniad o 'straen' na chwaith restr ddiffiniol o'r meini prawf. Sut mae disgwyl i awdurdodau lleol fesur effaith trefniadau cludiant ar unigolion? A beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud os oes tystiolaeth gref o ddiffyg gweithredu? Rhaid cofio hefyd nad oes llwybrau bysys addas ar gael ym mhob man a bod gwrthod cludiant i ddisgybl yn golygu bod yn rhaid i'r disgybl hwnnw gerdded dwy i dair milltir a hynny ar brydiau mewn tywydd gwlyb. Ymddengys yn gwbl annheg fod plant a phobl ifanc yn cyrraedd yr ysgol yn wlyb hyd at y croen a'u bod yn gorfod goddef y dillad gwlyb hynny am weddill y dydd. Fel sy'n cael ei nodi yn y ddadl yng Nghyfarfod Llawn y Senedd, mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r ffaith fod disgyblion yn cario offerynnau cerdd a chyfarpar arall ar gyfer eu gwersi. Ni ddylid amddifadu carfan o ddisgyblion o weithgareddau allgyrsiol oherwydd nad ydynt yn gallu cario'r cyfarpar hwnnw i'r ysgol, gan eu bod yn gorfod cerdded pellter o'u cartref i'w hysgol. |
|---|

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐